

Llun diolch i HSENI

## Golchi dwylo

Os byddwch yn cyffwrdd ag anifail fferm ac os na fyddwch yn golchi eich dwylo wedyn gallech fynd yn sâl/dost iawn.
Dylech **bob amser** olchi eich dwylo ar ôl ymweld â fferm a chyn cael unrhyw beth i'w fwyta neu ei yfed.

## Edrychwch am yr arwyddion hyn



**Mae trionglau melyn yn arwydd o berygl**



**Mae arwyddion coch yn dweud wrthych am beidio â gwneud rhywbeth**

**Cofiwch**
**Gall ffermydd fod yn llefydd peryglus**
**Rhaid ichi wneud yn siŵr bod oedolyn o gwmpas bob amser**
**ARHOSWCH YN SAFF AR Y FFERM**

Cynhyrchwyd yr wybodaeth hon gan y sefydliadau canlynol a fu'n cydweithio mewn partneriaeth:

**Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol**
Transport House
128 Theobald's Road
LONDON WC1X 8TN
Ffôn: 020 7611 2500
www.tgwu.org.uk

**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr**
Agriculture House
164 Shaftesbury Avenue
LONDON WC2H 8HL
Ffôn: 020 7331 7200
www.nfuonline.com

**NFU Mutual**
Tiddington Road
STRATFORD UPON AVON
Warwickshire CV37 7BJ
Ffôn: 01789 204211
www.nfumutual.co.uk

**ADAS**
Woodthorne, Wergs Road
WOLVERHAMPTON WV6 8TQ
Ffôn: 01902 754190
www.adas.co.uk

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**
Llinell wybodaeth – Parc Busnes Caerffili
CAERFFILI CF83 3GG
Ffôn: 08701 545500
www.hse.gov.uk

**Undeb Bwyd a Ffermio'r Menywod**
National Office, Stoneleigh Park
KENILWORTH
Warwickshire CV8 2LZ
Ffôn: 02476 693171
www.wfu.org.uk

**Farms for Schools**
Blwch Post 27
HEBDEN BRIDGE HX7 5YZ
Ffôn: 01422 882708
www.farmsforschools.org.uk

**Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd**
Adeilad Morgannwg, Rhodfa'r Brenin Edward VII
CAERDYDD CF10 3WT
Ffôn: 02920 875179
www.cardiff.ac.uk/socsi

# Nid caeau chwarae yw ffermydd

## 10 ffordd y gallech gael niwed ar y fferm



**Cyngor ar ddiogelwch ar fferm i blant 7-11 oed**

1



## Anifeiliaid fferm

Mae rhai anifeiliaid fferm, fel teirw, yn fawr ac yn drwm a gallant eich brifo neu roi dolur ichi os byddwch yn eu ffordd. **Peidiwch** â dychryn anifeiliaid trwy wneud sŵn uchel na phlagio unrhyw anifeiliaid a welwch ar fferm.

2



## Olwynion tractor a giatiau

Gall olwynion a giatiau fod yn drwm iawn; petaent yn syrthio arnoch gallent eich lladd. Os gwelwch chi olwynion neu giatiau yn pwyso yn erbyn wal **peidiwch** â dringo arnynt.

3




## Lagŵn slyri

Mae lagŵn slyri yn debyg i bwll nofio llawn o faw gwartheg. Os syrthiwch i mewn gallwch foddi. Peidiwch **byth** â mynd i le â'r math yma o arwydd arno.

4



## Trelars

Os ewch y tu ôl i drelar mawr ni fydd y gyrrwr yn gallu eich gweld. Gallai facio a gyrru drosoch. Efallai na fydd y gyrrwr yn eich clywed os gwaeddwch, gan fod tractorau a pheiriannau fferm eraill yn swnllyd iawn.

5




## Cemegau

Mae cemegau peryglus yn cael eu defnyddio'n aml ar ffermydd. Gallant fod yn hylif neu'n bowdr. **Peidiwch** â chyffwrdd unrhyw boteli, bocsys na bagiau o gemegion gan y gallai hynny eich gwneud yn sâl/dost iawn.

6



## Cwympo

Gall dringo fod yn hwyl ond peidiwch **byth** â dringo ar bentyrrau o fyrnau nac i fyny ysgolion gan y gallech syrthio oddi arnynt yn hawdd a'ch brifo/anafu eich hun.

7



## Cuddfannau a thân

Mae pentyrrau o fyrnau'n edrych yn llefydd gwych i wneud cuddfannau, ond gallant gwympo neu fynd ar dân. Peidiwch **byth** â gwneud cuddfan mewn byrnau a pheidiwch **byth** â chwarae â matsys yn agos i fyrnau. Gallant losgi'n hawdd a gallech chi gael eich llosgi'n ddrwg neu gael eich lladd.

8



## Storfeydd grawn

Mae storfeydd grawn yn edrych yn llefydd da i chwarae ynddynt ar fferm ond maent yn beryglus iawn. Peidiwch **byth** â mynd i mewn i storfa rawn gan y gallech suddo i mewn i'r grawn a boddi.

9

Llun diolch i Ian Gillett



## Diogelwch a thractorau

Mae tractorau'n beiriannau mawr, trwm. Os nad yw'r gyrrwr yn eich gweld, gallai'r tractor yrru drosoch a'ch lladd. **Rhaid ichi beidio** â theithio ar beiriannau fferm nes byddwch yn 13 oed.